NEWID DIWYLLIANT
CULTURE CHANGE

# Rhaglen Arweinyddiaeth Newid Diwylliant | Culture Change

Grymuso'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr diwylliannol o'r Mwyafrif Byd-eang[i] yng Nghymru

## Ar gyfer pwy mae'r rhaglen hon?

Mae Rhaglen Arweinyddiaeth Newid Diwylliant | Culture Change wedi'i chynllunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol o'r Mwyafrif Byd-eang sy'n gweithio yn y sector diwylliannol yng Nghymru ac sydd ar ddechrau eu gyrfa. Mae'n berffaith i'r rhai sydd â rhywfaint o brofiad o reoli prosiectau neu dimau ac sy'n awyddus i gamu i rolau arwain. P'un a ydych yn artist, cynhyrchydd, gweithiwr diwylliannol neu reolwr, mae'r rhaglen hon ar gyfer unrhyw un sy'n barod i ehangu eu dylanwad a chael effaith barhaol yn y sector.

## Beth yw'r trefniadau?

Bydd y cwrs preswyl 5 diwrnod trochol hwn yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd rhwng 18 a 22 Tachwedd 2024. Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- Sesiynau rhyngweithiol ar arweinyddiaeth, newid diwylliannol, a rheoli prosiectau wedi'u teilwra i'r sector diwylliannol
- Siaradwyr gwadd yn rhannu eu profiadau a'u harbenigedd arweinyddiaeth bersonol
- Cyfleoedd rhwydweithio i gysylltu â chyfoedion ac arweinwyr diwydiant
- Gweithdai a thrafodaethau wedi'u cynllunio i feithrin cydweithredu, arloesi a meddwl strategol

## Dyddiadau ac Amseroedd

18-22 Tachwedd 2024. Mae hon yn rhaglen breswyl, a bydd yr holl gyfranogwyr yn ymgysylltu'n llawn ar draws y pum diwrnod hyn.

## Ffioedd Rhaglen

Diolch i gyllid gan Gronfa Gwrth-hiliol Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cymru Llywodraeth Cymru, nid oes angen i gyfranogwyr dalu ffi i gymryd rhan yn y rhaglen hon.

Yn ogystal, rydym yn cydnabod y gallai rhai cyfranogwyr fod yn hunangyflogedig neu'n methu â mynychu yn ystod oriau gwaith. I gefnogi hyn, rydym yn cynnig ffi cyfranogiad o £500 i dalu am eich amser ar gyfer mynychu.

**Llety a phrydau bwyd**

Ar gyfer cyfranogwyr sy'n byw y tu allan i Gaerdydd, darperir llety a brecwast. Bydd cinio a rhai prydau gyda'r nos hefyd yn cael eu darparu ar gyfer y garfan gyfan drwy gydol y rhaglen.

**Mynediad**

Rydym wedi ymrwymo i wneud y rhaglen hon yn hygyrch i bawb. Byddwn yn gofyn am eich gofynion mynediad fel rhan o'r broses recriwtio. Gallai hyn gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i):

- Pennawd lleferydd-i-destun byw
- Darparu neu gymorth ar gyfer costau dehongli BSL
- Tynnu nodiadau neu ddisgrifiad sain

Os hoffech drafod eich anghenion mynediad neu os oes angen cymorth arnoch gyda'r broses ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu â ni yn culturechange@theatr.com.

**Ydych chi’n gymwys i gymryd rhan?**

Rydym yn chwilio am amrywiaeth o gyfranogwyr ar gyfer Rhaglen Arweinyddiaeth Newid Diwylliant | Culture Change, gyda'r nod o greu deinamig grŵp bywiog a chyfoethog. Er mwyn sicrhau ein bod yn denu unigolion a fydd yn gwella'r profiad dysgu ar y cyd, rydym yn chwilio am ymgeiswyr mwyafrif byd-eang sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Profiad: 2+ mlynedd o brofiad o weithio yn y sector diwylliannol – fel gweithiwr llawrydd neu wedi eich cyflogi - gan gynnwys rhywfaint o brofiad o gychwyn a/neu reoli prosiectau a thimau.
- Uchelgais Arweinyddiaeth: Uchelgais gref i arwain, ynghyd ag ymdeimlad clir o bwrpas a gweledigaeth ar gyfer eich dyfodol yn y maes diwylliannol.
- Awydd am Dwf: Diddordeb gwirioneddol mewn deall arweinyddiaeth yn well a gwella'ch sgiliau.
- Hunanymwybyddiaeth: Sgiliau myfyriol ac yn agored i ddysgu o brofiadau ac adborth.
- Ymrwymiad i Ddiwylliant: Angerdd dwfn dros y sector diwylliannol ac ymrwymiad i sbarduno newid cadarnhaol ynddo.
- Chwilfrydedd: awydd i ddysgu am gyd-destun ehangach diwylliant a sut mae'n rhyngweithio a materion cymdeithasol amrywiol.
- Lleoliad: Yn gweithio yn y sector ddiwylliannol yng Nghymru ar hyn o bryd.

Os ydych yn bodloni'r meini prawf hyn ac yn awyddus i gychwyn ar daith drawsnewidiol o ddatblygu arweinyddiaeth, rydym yn eich annog i wneud cais am y Rhaglen Arweinyddiaeth.

**Sut i ymgeisio?**

I wneud cais, llenwch y ffurflen isod yn unig. Yn eich cais, amlinellwch eich profiad perthnasol, pam yr hoffech gymryd rhan, a sut y gallai'r rhaglen effeithio ar eich gyrfa yn y sector diwylliannol.
https://forms.office.com/e/Gz0H7RQuqJ

**Cwrdd â'r Hwyluswyr**

Mae ein hwyluswyr arbenigol yn dod â chyfoeth o brofiad mewn arweinyddiaeth, newid diwylliannol ac amrywiaeth. Dewch i adnabod yr unigolion talentog sy'n eich tywys drwy'r rhaglen drawsnewidiol hon:

**Richie Turner**

Mae Richie Turner yn weithiwr proffesiynol profiadol yn y diwydiannau creadigol, yn arbenigo mewn entrepreneuriaeth, arloesi, datblygu busnes a rheoli celfyddydau. Ar hyn o bryd mae'n Rheolwr Cymunedol – Deorfa Menter ac Ymgysylltu ym Mhrifysgol De Cymru, lle mae'n cefnogi twf busnesau newydd a mentrau entrepreneuriaeth graddedigion. Mae Richie hefyd wedi ymgymryd a rolau amrywiol ar draws y celfyddydau, addysg uwch, a'r sector gyhoeddus, sy'n adlewyrchu ei arbenigedd mewn gyrru a llywio prosiectau creadigol.
Yn ogystal â'i rôl yn y brifysgol, mae Richie yn aelod o fwrdd Caerdydd Creadigol ac yn Ymddiriedolwr Casnewydd Fyw (lle mae'n cadeirio eu pwyllgor celfyddydau). Mae wedi gwasanaethu ar fyrddau Cymru Greadigol a Chyngor Celfyddydau Cymru ac roedd yn Gyd-Gyfarwyddwr Loteri CCC. Mae hefyd wedi gweithio i Nesta, nifer o awdurdodau lleol, yn y sector celfyddydau cymunedol ac roedd yn un o sefydlwyr NoFit State Circus. Yn fwy diweddar mae Richie wedi gweithio i'r pedwar Cyngor Celfyddydau yn y DU i lunio astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Cerdyn Mynediad Celfyddydau y DU.

**Helga Henry**

Mae Helga Henry yn ymgynghorydd arweinyddiaeth uchel ei barch ac yn arbenigwr yn y sector diwylliannol. Gyda dros ddau ddegawd o brofiad yn gweithio ar draws y celfyddydau, diwydiannau creadigol, a sectorau busnes, mae Helga yn adnabyddus am ei hagwedd emosiynol ddeallus at hyfforddiant arweinyddiaeth, amrywiaeth a chynhwysiant, a datblygiad sefydliadol. Mae hi wedi gweithio gyda sefydliadau diwylliannol mawr, gan gynnwys yr RSC, MAC Belfast a'r Royal Albert Hall. Fel hwylusydd, mae Helga yn dod â mewnwelediad dwfn i strategaethau arweinyddiaeth, gan ganolbwyntio ar helpu arweinwyr sy'n dod i'r amlwg i lywio heriau, creu rhwydweithiau gwydn ac effeithiol a datgloi eu potensial i ysgogi newid cadarnhaol. Mae hi'n gyd-awdur gydag Andy Bass o "*Networkability - building your business one relationship at a time*", a gyhoeddwyd gan Troubadour Books."

**Lara Ratnaraja**

Mae Lara Ratnaraja yn llais dylanwadol ym maes polisi diwylliannol, amrywiaeth ac arloesedd. Gyda chefndir yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, mae Lara wedi gweithio fel ymgynghorydd gydag ystod o sefydliadau diwylliannol, gan eu helpu i integreiddio amrywiaeth a chynhwysiant yn eu cynllunio strategol. Mae hi wedi bod yn allweddol wrth lunio polisïau a mentrau sy'n cefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector creadigol. Mae arbenigedd Lara yn rhychwantu datblygu arweinyddiaeth, creu lleoedd diwylliannol, entrepreneuriaeth ac arloesi digidol, ac mae hi wedi ymrwymo i feithrin arweinyddiaeth gynhwysol sy’n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau.

Mae Lara ar fwrdd Compton Verney. Mae hi ar Gyngor y DU ar gyfer Creative UK yn ogystal â'u Fforwm Amrywiaeth; Grŵp Cynghori Rhanbarthol Canolbarth Lloegr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; y Grŵp Mynediad, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn yr Arboretum Coffa Cenedlaethol; a Bwrdd Arlwyo Cymunedol yr Holl Saint - rhaglen lles bwyd cymunedol. Cyn hynny bu ar Bwyllgor Cydraddoldeb Strategol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Gyda'i gilydd, mae Richie, Helga, a Lara yn dod â chyfuniad pwerus o arbenigedd, angerdd ac ymrwymiad i Rhaglen Arweinyddiaeth Newid Diwylliant | Culture Change. Byddant yn eich tywys drwy gysyniadau allweddol arweinyddiaeth, cydweithredu a newid diwylliannol, gan gynnig offer a strategaethau ymarferol i'ch helpu i lwyddo yn eich taith arweinyddiaeth.

**Siaradwyr Gwadd**

Bydd y rhaglen yn cynnwys nifer o siaradwyr gwadd, a fydd yn rhannu eu teithiau personol a'u mewnwelediadau i arweinyddiaeth, newid diwylliannol, ac effaith gymdeithasol. Bydd mwy o wybodaeth am y siaradwyr gwadd yn cael ei rhannu maes o law.

---

[i] **Defnydd iaith ac esblygiad termau:**
Ry’n ni’n ceisio sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn teimlo fel iaith gyfoes sy’n gallu ymateb i gwestiynau mawr a thrafod heriau cymdeithasol, ac oherwydd ein bod ni'n gweithio'n ddwyieithog, mae angen i ni ddefnyddio termau sy'n gweithio yn y ddwy iaith. Mae diffinio hunaniaeth a hil yn gymhleth ac yn aml-haenog. Rydym wedi penderfynu defnyddio ‘mwyafrif byd-eang’ fel term ymbarél. Pan yn cyfeirio at unigolion neu gymunedau byddwn yn ceisio bod mor benodol â phosib gyda’n defnydd o iaith a thermau. Rydym hefyd yn cydnabod bod termau a defnydd iaith wrth drafod bobl sydd gyda hunaniaethau diwylliannol gwahanol yn esblygu o hyd ac felly rydym yn ymrwymo i ddilyn y drafodaeth ar hyn ac adolygu ein hiaith lle bo angen.